# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW  Ffôn : 01745 826901  Sym :  07903328655
e-bost : johnmaclennan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR-LEIN AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, TACHWEDD 9fed, 2020.

1. CROESO - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL - y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; Tudur W. Jones; Gwyndaf O. Roberts a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.

3. YMDDIHEURIADAU - yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cynghorwyr D.Gwyn Jones; John D. Roberts a Goronwy R. Williams.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffir yr aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordeb personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na allai gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau a drafodir, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolaethau a pholisïau cynllunio.

5. CYFETHOL YMGEISYDD AM Y SEDD WAG.

Fe GYNIGIWYD gan y Cynghorydd Hefin Williams bod John Evans, Dolafon, Dolwen, Abergele, yn cael ei gyfethol fel yr aelod newydd ar Gyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos. Eiliwyd gan y Cynghorydd Bryn Jones ac fe gytunwyd yn UNFRYDOL gan bawb. Fe ymwelodd y Clerc â Mr. Evans yn ei gartref ar Dachwedd 12fed, 2020.Wedyn fe lofnododd y Cynghorydd John Evans ei fod yn derbyn y swydd, a'r Côd Ymddygiad. Rhoddwyd iddo gopi o'r Côd Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog a Rheolaethau cyllidol y Cyngor, ynghyd â'r holl bolisïau'n ymwneud â'r Cyngor. Fe groesawodd y Clerc ef fel aelod o'r Cyngor Cymuned.

6. MWY O WYBODAETYH YNGHYLCH CAIS CYNLLUNIO 0/47814 A OHIRIWYD ERS TACHEDD 2ail. 2020. Codi adeilad aml-bwrpas ar dir i'r de o Fetws yn Rhos gan Mr Zitou.

Wedi peth trafod fe benderfynodd yr aelodau WRTHWYNEBU'r cais am y rhesymau a osodir isod.

1. Ni fu unrhyw ymgais i liniaru effaith yr adeilad ar y dirwedd.

2. Ni oedd maint na graddfa'r cais yn gydnaws â'r ardal.
3. Pe bai'n cael ei gymeradwyo a fyddai'n bosibl symud y sied i fan llai amlwg?
4. Gofynnodd yr aelodau a oedd yna achos busnes cryf i'r cais.
5. Fe allai'r fynedfa i'r safle fod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Ac  a yw'r Adran Briffyrdd yn hapus gyda'r cais?

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 7.50y.h.

CADEIRYDD...............................................................DYDDIAD.........................................